



Sut y dyfarnir deilliannau dysgu ar gyfer blwyddyn academaidd 2019/20?

Cymwysterau Mynediad



O 17 Ebrill 2020

Cymwysterau MYNEDIAD

Cefndir

Mae'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch (QAA) wedi bod yn gweithio'n agos gyda'r Adran Addysg (DoE) a sefydliadau eraill i ddyfeisio dull asesu clir, teg a chyson ar gyfer dyfarnu'r Ddiploma Mynediad at Addysg Uwch 2019/20.

Ar 3 Ebrill 2020, cyhoeddodd QAA y byddai fframwaith rheoleiddio eithriadol yn cael ei roi ar waith i fyfyrwyr sy'n bwriadu cwblhau eu cyrsiau Mynediad at Addysg Uwch erbyn 31 Gorffennaf 2020.

Sut y gweithredir y Fframwaith Eithriadol?

Ar gyfer gwaith sydd angen ei gyflwyno cyn, neu ar 20 Mawrth 2020: defnyddir cynllun graddio safonol QAA ar gyfer yr holl asesiadau sydd â dyddiad cyflwyno pendant cyn, neu ar y dyddiad hwn. Mae QAA yn disgwyl y bydd myfyrwyr wedi cwblhau lleiafswm o 50% o waith asesu trefnedig erbyn y dyddiad hwn.

Ar gyfer gwaith sydd angen ei gyflwyno ar ôl 20 Mawrth 2020: bydd dysgwyr yn derbyn graddau cyfrifedig ar gyfer gweddill yr asesiadau sydd â dyddiadau cyflwyno ar ôl 20 Mawrth.

Sut fydd y Fframwaith Eithriadol yn gweithio?

Bydd y Fframwaith Eithriadol yn cynnwys tri pheth:

1. Graddau Asesu Amcan
2. Graddau Unedau Cyfrifedig
3. Geirda Tiwtor

Graddau Asesu Amcan

Byddant yn cael eu dyfarnu ar gyfer yr holl asesiadau sy'n weddill sydd â dyddiadau cyflwyno ar ôl 20 Mawrth 2020.

Byddant yn seiliedig ar eich perfformiad yn ystod eich astudiaeth ac

yn feirniadaeth realistig o raddau'r asesiad (e.e. llwyddo, teilyngdod, rhagoriaeth) y byddech yn debygol o fod wedi ei chyflawni ar gyfer pob un o'r disgrifwyr gradd sy'n berthnasol ar gyfer bob asesiad, pe byddech wedi ei gwblhau. Bydd eich athrawon yn tynnu ar amrywiaeth o dystiolaeth, yn cynnwys cyrhaeddiad blaenorol, perfformiad unrhyw asesiad ffurfiannol (hyd yn oed os nad ydynt wedi'u cwblhau'n llawn) ac unrhyw gofnodion eraill o berfformiad yn ystod eich astudiaeth.

Er bod parhau â dysgu'n bwysig ar gyfer eich cynnydd, ni fydd y gwaith a dderbynnir ar ôl 20 Mawrth yn cael ei ystyried yn ffurfiol wrth ddyfarnu graddau disgwylidig.

Graddau Unedau Cyfrifedig

Bydd eich athro yn adolygu'r holl ddangosyddion gradd rydych wedi'u derbyn ar gyfer uned, ac yn pennu ar y radd derfynol ar gyfer yr uned gan ddefnyddio dull safonol (fel y nodir yn eich Llawlyfr Cynllun Graddio - adran C). Mae hyn yn debygol o gynnwys Graddau Asesiad Amcan a'r radd go iawn.

Geirda Tiwtor

Yn ogystal, bydd eich tiwtor yn eich darparu â geirda academaidd i gefnogi eich cais at addysg uwch neu gyflogaeth. Mae'n debygol y byddwch yn derbyn y geirda dim hwyrach na 27 Gorffennaf 2020. Ni fydd Geirda eich Tiwtor yn cael ei gynnwys yn yr amrywiaeth o dystiolaeth i lywio'r Graddau Asesu Amcan.

A ystyrir fy addasiad rhesymol cytunedig?

Os ydych yn fyfyrwr sy'n gymwys ar gyfer trefniadau arbennig ar gyfer arholiadau, byddant yn cael eu hystyried yn y graddau rydych yn eu derbyn, felly ni fyddwch dan anfantais o fewn y broses newydd

A fydd fy athro yn rhannu fy ngraddau â mi?

Nid yw eich athrawon yn cael rhannu graddau disgwylidig â chi hyd nes y cytunir ar y graddau terfynol. Pwrpas hyn yw diogelu tryloywder beirniadaeth yr athrawon, ac osgoi rhoi athrawon dan bwysau i gyflwyno'r radd nad yw'n cael ei chefnogi gan dystiolaeth.



Beth fydd yn digwydd i'r wybodaeth ar ôl ei chwblhau?

Caiff y wybodaeth ei chyflwyno i'r corff dyfarnu erbyn 5 Mehefin 2020. Yna, bydd Asiantaethau Dilysu Mynediad (AVA) yn cwblhau proses gymedroli a safoni cyn cadarnhau'r deilliannau terfynol. Ar ôl cwblhau'r broses hon, gall athrawon rannu graddau gyda dysgwyr.

Beth os rwy'n anhapus gyda fy ngraddau?

Ni fydd y trefniadau arferol ar gyfer apeliadau yn berthnasol, ac rydym yn disgwyl cyfarwyddyd pellach ar hyn gan y corff dyfarnu.

Proses ac Amserlen

Bydd holl raddau'r asesiadau'n (disgwyliedig a go iawn) yn cael eu cyflwyno i Agored erbyn 5 Mehefin 2020.

Darperir geirdaon academiaidd i ddysgwyr erbyn 27 Gorffennaf 2020.

Disgwylir y bydd graddau yn cael eu cadarnhau o ddiwedd Gorffennaf 2020.

Rhagor o Wybodaeth

Am ragor o wybodaeth, dilynwch y diweddariadau ar y wefan ganlynol:

https://www.accesstohe.ac.uk/docs/access/news-and-events-documents/access-to-he-diploma---how-to-calculate-grades-for-students-april-2020.pdf?sfvrsn=2ccfcd81_14